

DAIL SALAD

1 HAU DY HADAU

Gelli di dyfu gwahanol fathau o ddail salad drwy gydol y flwyddyn. Rhwng diwedd y gwanwyn a'r hydref, ceisia dyfu salad yr haf ac o ganol yr haf hyd yr hydref gelli di blannu salad y Dwyrain a'r gaeaf.

Gwna rigolau 0.5m o ddyfnder gan adael 30cm rhwng pob rhes. Dyfria'r rhigol a thaenu ychydig o hadau ar ei hyd. Rho ychydig o bridd dros y rhigolau. Edrych ar y pecynnau hadau unigol i weld oes cyfarwyddiadau penodol ar gyfer dy fath di o ddail salad.


2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 5 – 10cm o daldra, dechreu dynnu'r rhai llai a gwannach. Gadawa 15cm rhwng pob planhigyn.

3 CYNAEAFU

Pan fydd y dail o leiaf 15cm o daldra, gelli di hel y dail allanol drwy dynnu arnyn nhw wrth goesyn y planhigyn a'u troi. Bydd y planhigyn yn tyfu mwy o ddail i ti eu hel eto.

Gwna'n siŵr dy fod ti bob amser yn gadael 3 deilen ifanc o leiaf ar y planhigyn fel ei fod yn gallu dal ati i dyfu. Neu gelli di gynaeafu'r planhigyn cyfan drwy ei godi'n llwyr.



Planhigion bach cyn eu teneuo



Barod i'w hel

Mae dail salad yn fwyd bendigedig i falwod a gwlithod, felly edrycha allan amdany'n nhw a'u symud oddi wrth dy ddail salad.

Os byddi d'n gadael i'r planhigion aeddfedu byddan nhw'n 'mynd i had' a byddan nhw'n blasu'n chwerw. Gelli di ddewis eu gadael nhw i dyfu er mwyn hel yr hadau ar ôl i'r planhigyn a'r blodau sychu.